

# Gwers 26 – Y Pedwar Pysgotwr

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Luc 5:1–11

**R**oedd gan Iesu ddiddordeb mawr mewn unigolion. Er iddo bregethu i dyrfaoedd mawrion roedd ei neges bob amser wedi ei hanelu at yr unigolyn. Âi allan o'i ffordd i helpu pobl yn bersonol, ei bwrpas oedd eu newid a'u hanfon allan i rannu ei neges o gysur a maddeuant gydag eraill. Yma, y mae Luc yn disgrifio Iesu'n cyfarfod â phedwar unigolyn a'r newid a brofasant oherwydd iddynt ymddiried ynddo.

Dywed Luc wrthym fod Iesu wedi gweld '...dau gwch yn sefyll wrth y lan. Yr oedd y pysgotwyr wedi dod allan ohonynt ac yr oeddent yn golchi eu rhwydau' (Luc 5:2). Buont yn pysgota drwy'r nos heb ddal dim. Rhaid oedd golchi'r rhwydi a'u gosod allan i sychu neu fe fyddent yn pydru ac yn rhwygo. Busnes oedd pysgota ac yr oedd y pedwar, Simon a'i frawd, Andreas, ynghyd â dau fab Sebedeus, Iago ac Ioan, yn bartneriaid (Luc 5:7).

Disgyblion yw dilynwyr arbennig athro penodol; roedd gan Ioan Fedyddiwr ddisgyblion (Marc 2:28) a hefyd rhai o broffwydi'r Hen Destament (Eseia 8:16). Dywed Ioan wrthym (Ioan. 1:35–42) fod Simon ac Andreas yn ddisgyblion i Ioan Fedyddiwr a chlywsant ef yn cyfeirio at Iesu fel 'Oen Duw'. Ar ôl treulio noson yng nghwmni Iesu, brysiodd Andreas at ei frawd a dweud 'Yr ydym wedi darganfod y Meseia' (Ioan. 1:41).

Mae'n ymddangos fod gan Iesu ddisgyblion ar ddwy lefel; grŵp mwy o 72 (Luc 10:1,23), a grŵp llai o 12. Diben Iesu yn galw'r 12 oedd nid yn unig i'w hyfforddi, ond iddynt hwythau barhau â'r gwaith pan fyddai eu Hathro wedi dychwelyd at ei Dad.





Cymwysterau hanfodol ar gyfer pysgotwyr yw 'amynedd' a 'dyfalbarhad', a'r gallu i wynebu siom, e.e. pysgota drwy'r nos heb ddal dim. Gwyddai Iesu y byddai angen yr un cymwysterau â'r pedwar cyfaill yma ar unrhyw un a anfonai i weithio drosto.

## Y Deuddeg Disgybl

Y mae Mathew, Marc a Luc yn cofnodi hanes Iesu'n dewis deuddeg disgybl arbennig, y nifer yn cyfateb i feibion Jacob a deuddeg llwyth Israel. Simon a gyfenwyd Pedr; Andreas ei frawd; Iago a'i frawd Ioan, meibion Sebedeus; Philip; Bartholomeus; Mathew; Thomas; Iago fab Alffeus; Simon a elwid y Selot; Jwdas fab Iago; Jwdas Iscariot. Pysgotwyr oedd o leiaf y pedwar cyntaf, er y mae awgrym yn Ioan 21:2 fod tri arall (Philip, Thomas a Bartholomeus efallai) gyda chefnidir yn y byd pysgota. Credir mai casglwr trethi oedd Mathew ac mai ef yw Lefi a enwir yn Luc 5:27. Cyfenwyd Jwdas yn 'Selot', naill ai oherwydd ei fod yn frwd dros faterion crefyddol neu am ei fod yn aelod o'r 'Selotiaid', grŵp a oedd yn ymgyrchu yn erbyn y Rhufeiniaid. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am y gweddill, ar wahân i Jwdas Iscariot; a oedd yn wahanol i'r gweddill a ddeuai o Cerioth yn ne'r wlad.

## Llyn Genesaret

Enw arall ar Fôr Galilea; fe'i gelwir hefyd yn Fôr Tiberias. Llyn mawr neu fôr mewndirol yn mesur 13 milltir o hyd a 7 milltir ar draws, ac yn gorwedd 695 troedfedd islaw lefel y môr. Defnyddid Cychod rhwyfo, er mae'n debygol fod ganddynt hwyl fechan fel yr awgryma'r hanes yn Mathew 14:24. Arferid pysgota yn y nos gyda'r pysgod yn cael eu codi i'r cwch neu lusgo'r rhwyd gyda pysgod ynddi i'r lan.



Mae'r lluniau hyn o Andreas a Pedr ar daith bysgota yn y drefn anghywir.  
Gosod nhw yn eu trefn gywir drwy rifo'r blychau o 1 i 6.  
Darllen Mathew 4:18-20.

# Gwers 26 – Y pedwar pysgotwr

## Cyfarfod Iesu | Marc 1:16–20

### Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 112



#### Gwers 26

Y pedwar pysgotwr

#### BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Y pedwar pysgotwr tud 112

#### BEIBL LLIW STORI DUW

Y pedwar pysgotwr tud 226

#### BEIBL BACH STORI DUW

I ffwrdd â ni tud 210

#### BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Ffrindiau Arbennig Iesu tud 90

#### BEIBL LLIW Y PLANT

Iesu'n galw ei ddisgyblion tud 210

#### BEIBL NEWYDD Y PLANT

Cyfarfod Iesu tud 136

#### BEIBL BACH I BLANT

Deuddeg ffrind Arbennig tud 322

#### Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORÏAU

'Dilynwch fi!' tud 290

#### BEIBL LLIW Y TEULU

Y Pedwar Pysgotwr tud 128

### I ddechrau

#### Gêm: Ar y lan/Yn y cwch

Marcwch linell ar lawr yr ystafell (tâp masgio/sialc/cortyn). Rhwch y plant i sefyll ar un ochr i'r llinell ac eglurwch eu bod ar lan llyn mawr. Wrth neidio i ochr arall y llinell byddant yn y cwch. Bydd yr arweinydd yn galw, naill ai 'Ar y lan'

neu

'Yn y cwch'.

Rhaid i'r plant ufuddhau gan neidio i ochr gywir i'r llinell. Ond, bydd yr arweinydd yn ceisio twyllo'r plant wrth ail adrodd yr un cymal weithiau. Os ydy plentyn yn gwneud camgymeriad, rhaid iddo/i eistedd.

### Yr hanes

Yn y stori heddiw, byddwn yn clywed am bedwar dyn a dreuliodd lawer iawn o amser ar lan llyn, ac mewn cwch ar y llyn.

Darllenwch y stori gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau ar y Rhestr Adnoddau a'r Llinell Amser.

### Gweithgarwch

Bydd angen paratoi oddeutu 10 pysgodyn cerdyn maint A4 a bag ffa. Defnyddiwch bensel i dynnu llun siâp dyn ar gefn 4 o'r pysgod. Gosodwch y pysgod ar lawr fel na all y plant weld pa rai sydd â siâp dyn arnynt.

Caiff pawb yn eu tro gyfle i daflu'r bag ffa gan geisio taro un o'r pysgod. Wedi llwyddo, dylid edrych i weld a oes siâp dyn ar y cefn ai peidio. Wedi darganfod y 4 'pysgotwr' gofynnwch i'r plant eu henwi.

Gellir chwarae'r gêm nifer o weithiau.

### Gêm: Dilyn yr arweinydd

I'r plant lleiaf, mae'n ddigon gofyn iddynt ddilyn arweiniad yr athro wrth wneud gwahanol symudiadau (cerdded, hopian, neidio, rhwbio trwyn, dangos tafod, rhwbio bol ac ati).

Gyda'r plant hŷn, gellir chwarae 'Pwy yw'r arweinydd?'

Bydd angen i bawb eistedd mewn cylch. Bydd Plentyn A yn gadael yr ystafell tra bod yr athro yn dewis Yr Arweinydd. Gwaith yr Arweinydd fydd arwain pawb arall yn y cylch i ffugio chwarae gwahanol offerynnau cerddorol. Yr Arweinydd fydd yn dewis yr offeryn, gan newid yr offeryn yn aml. Bydd Plentyn A yn ymuno â'r cylch heb wybod pwy yw'r Arweinydd a rhaid iddo/i edrych yn ofalus er mwyn dyfalu pwy yw'r Arweinydd.

## Trafod

Gofynnodd Iesu i'r pedwar disgybl ei ddilyn. Pam?  
Aeth y pedwar disgybl i ddilyn Iesu – beth ddigwyddodd i wneud iddynt weld fod Iesu yn berson arbennig?  
Ydy'r dosbarth yn credu fod bywyd y pedwar pysgotwr wedi bod yn hawdd wedyn? Pam?  
Weithiau bydd pobl yn gofyn i ni eu dilyn ac yn gofyn i ni wneud pethau drwg. Gofynnwch i'r plant am eu profiadau o hyn.  
Pwy, ym marn y dosbarth, sydd yn dilyn Iesu Grist heddiw?  
Beth mae dilyn Iesu Grist yn ei olygu i ni heddiw?

## Cân

'Mi benderfynais i ddilyn Iesu' (Caneuon Ffydd, 798)  
'Mi gamaf 'mlaen' (Tyrd i Ddathlu, rhif 15)

## Gweddi

Gofynnwch i'r plant gyflwyno gweddi dros bawb sy'n dilyn Iesu heddiw, yn blant a phobl mewn oed.

## Dysgu adnod

(Mathew 4.19)

'Dyma Iesu'n galw arnyn nhw, "Dewch, dilynwch fi, a gwna i chi'n bysgotwyr sy'n dal pobl yn lle pysgod." (beibl.net)

'A dywedodd (Iesu) wrthynt, "Dewch ar fy ôl i, ac fe'ch gwnaf yn bysgotwyr dynion".'

Marcwch 4 sgwâr ar lawr (sialc/tâp masgio) neu gellir defnyddio 4 wal yr ystafell.

Rhannwch y plant yn 4 grŵp a'u rhoi i sefyll mewn sgwâr neu ger wal. Bydd pob sgwâr/wal yn cynrychioli rhan benodol o'r adnod a rhaid i'r grŵp sy'n sefyll yn y sgwâr ddweud y rhan honno o'r adnod:

Sgwâr 1: Dyma Iesu'n galw arnyn nhw,

Sgwâr 2: Dewch dilynwch fi

Sgwâr 3: a gwna i chi'n bysgotwyr

Sgwâr 4: sy'n dal pobl yn lle pysgod.

Gwnewch i'r grwpiau newid lle, fel eu bod yn gorfod dysgu rhan arall o'r adnod hefyd.

## Gweithgarwch ychwanegol

Aeth y pedwar pysgodyn i ddweud wrth eraill am Iesu. Rhannwch y plant yn ddau dîm. Bydd angen i bob tîm ddweud rhywbeth am Iesu Grist yn eu tro. Pa dîm fydd y cyntaf i redeg allan o bethau i'w dweud?

## Adnoddau Ychwanegol

### Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed *Disgyblion yn dilyn Iesu* tud. 113, *Iesu'n dewis ei ddisgyblion cyntaf* tud. 115

### Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres C – Bywyd cynnar Iesu

### Cyfres DVD Stori Duw

Stori 34: Ffrindiau arbennig Iesu

### Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 326

### Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 38: Deuddeg Ffrind arbennig Iesu yn cyfarfod a Mathew

### Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres A: Bywyd cynnar Iesu

